## Eglurhad

Dogfen sy'n amlinellu agwedd eich partneriaeth fwyd at weithgareddau allgymorth yw **Strategaeth Gyfathrebu.** Dylai nodi amcanion cyfathrebu clir a chynnwys y negeseuon allweddol rydych am eu cyfleu, y cynulleidfaoedd rydych chi eisiau eu cyrraedd a'r dulliau a'r adnoddau y byddwch yn eu defnyddio i gyflawni hynny. Bydd cyfathrebu'n effeithiol yn helpu eich partneriaeth fwyd i gyflawni ei diben cyffredinol.

## Cyflwyniad

- Os ydych yn mynd am wobr Lleoedd Bwyd Cynaliadwy neu eisiau cyfathrebu yr hyn rydych chi'n ei wneud, gall cael strategaeth gyfathrebu eich helpu i wneud yn siŵr bod y brandio a'r negeseuon yn glir ar draws y rhwydwaith cymhleth o bartneriaid sy'n debygol o gymryd rhan.
- Gallai eich strategaeth gyfathrebu gwmpasu eich partneriaeth fwyd drwyddi draw; eich ymgyrch am wobr efydd, arian neu aur; neu brosiect allweddol neu ddigwyddiad mawr.
- Gall gymryd amser i gytuno ar yr hyn rydych am i'ch deunydd cyfathrebu ei gyflawni ac i wneud cynllun i'ch helpu i fesur eich llwyddiant, i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol ac i wella effaith eich partneriaeth fwyd.

## Beth i'w wneud

### 1. Nodi Amcanion Cyfathrebu

Meddyliwch yn ofalus beth yw amcanion eich strategaeth gyfathrebu. A yw'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd? Argyhoeddi grwpiau penodol i weithredu i gyrraedd nod penodol? A yw wedi'i anelu at grwpiau penodol, unigolion neu'r ddau?

### 2. Adnabod eich Cynulleidfa

Gyda phwy rydych chi eisiau cyfathrebu? (gweler y canllaw Ymgysylltu â Rhanddeiliaid). Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi rannu'ch cynulleidfa yn gategorïau gwahanol e.e. busnesau nad ydyn nhw'n ymwneud â bwyd, busnesau bwyd, sefydliadau addysgol, partneriaid, y cyhoedd, grwpiau cymunedol, tyfwyr a ffermwyr, sefydliadau cyfryngau, sefydliadau statudol, gwleidyddion etc.

**3. Datblygu Negeseuon Allweddol**

Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech eu cyfathrebu? Beth rydych chi am i'ch cynulleidfa ei wybod, ei feddwl a'i wneud? Ceisiwch deilwra eich negeseuon i'ch cynulleidfaoedd o ran tôn a chynnwys.

**4. Nodi Sianeli Cyfathrebu**

Nodwch y sianeli cyfathrebu allweddol sydd ar gael i chi (e.e. Facebook, Twitter, Instagram, Gwefan, Rhestr Bostio, Y Wasg, Digwyddiadau etc.), meddyliwch pa gynulleidfaoedd maen nhw'n debygol o'u cyrraedd a pha rai o'ch amcanion cyfathrebu maen nhw'n eu bodloni.

**5. Gwnewch Gofnod Ysgrifenedig**

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ysgrifennu eich strategaeth fel tabl sy'n dangos eich holl sianeli a chynulleidfaoedd ynghyd â chanlyniadau a thargedau. Gweler enghraifft isod. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i greu amserlen i nodi'n glir y gweithgareddau fydd yn digwydd o fis i fis.

## Pecyn Cyfathrebu i Randdeiliaid

- Os oes gennych y gallu, efallai y byddwch am greu **pecyn cyfathrebu i randdeiliaid.** Gall hyn roi'r adnoddau angenrheidiol i randdeiliaid hyrwyddo eich negeseuon allweddol o fewn eu rhwydweithiau eu hunain. Gallai hyn gynnwys copïau o logos, datganiadau i'r wasg, hashnodau Twitter, negeseuon allweddol etc.

## Awgrymiadau Gwych

- Gwiriwch a allwch gael cymorth gan weithiwr cyfathrebu proffesiynol o fewn eich awdurdod lleol e.e. Tîm Marchnata a Chyfathrebu, GIG, Prifysgol neu asiantaeth arall i'ch helpu i greu eich strategaeth.
- Meddyliwch am ddiwrnodau gweithredu cenedlaethol a digwyddiadau y gall eich strategaeth gyfathrebu gyd-fynd â nhw er mwyn rhoi dylanwad ychwanegol.
- Mae angen negeseuon cyson a chlir i egluro i randdeiliaid a sefydliadau eraill pam eich bod yn mynd am wobr SFP. Efallai y bydd angen i chi ystyried negeseuon penodol ar gyfer gwahanol grwpiau e.e. y rhai sydd eisoes yn ymgysylltu ac yn deall yr agenda, a'r rhai sy'n newydd i hyn.
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig – hyd yn oed os yw ar un ochr A4.

# Enghraifft o Strategaeth Gyfathrebu

| Amcanion Cyfathrebu | Cynulleidfa Darged | Negeseuon Allweddol | Dulliau Cyfathrebu | Pa mor aml / Amseru | Pwy sy'n Gyfrifol | Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A.**<br>I godi ymwybyddiaeth o Wobr Efydd SFP a manteision i'r ddinas.<br><br>**B.**<br>I annog sefydliadau ac unigolion i weithredu fel rhan o ymgyrch Gwobr Efydd SFP. | Busnesau Bwyd | • Beth yw Gwobr Efydd SFP a'i phwysigrwydd.<br>• Camau clir y gall y busnes bwyd eu cymryd ar bob mater allweddol.<br>• Cyfleoedd i arddangos eu gweithredoedd. | • Digwyddiad – Caffael Cynaliadwy<br>• Gweithdai ar themâu allweddol<br>• Noson Gyflwyno Gwobr Efydd SFP<br>• Gwefan / Twitter | Haf 2020.<br><br>Chwarterol.<br>Haf 2021<br><br>Parhaus | | 1 digwyddiad<br><br>4 gweithdy<br>1 Noson Wobrwyo (40 o fusnesau bwyd yn gweithredu) |
| | Busnesau nad ydynt yn ymwneud â bwyd | • Beth yw Gwobr Efydd SFP a pham ei bod yn berthnasol i fusnesau nad ydynt yn ymwneud â bwyd.<br>• Camau y gall busnesau nad ydynt yn ymwneud â bwyd eu cymryd i gefnogi'r Wobr.<br>• Arddangos cyfleoedd. | • Cyflwyniadau mewn Brecwastau Busnes<br><br>• Erthyglau ar gyfer cylchlythyron busnes, gan gynnwys proffiliau o'r rhai sy'n gweithredu<br>• Gwefan / Twitter | Bob 6 mis<br><br>Colofn fisol reolaidd (+6 proffil busnes) | | 2 gyflwyniad<br>6 proffil o fusnesau i ddangos pob maes allweddol.<br>(30 o fusnesau yn gweithredu) |
| | Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Fwyd | • Sut i hyrwyddo'r ymgyrch o fewn eu rhwydweithiau. | • Cyflwyno Pecyn Cyfathrebu i Randdeiliaid mewn cyfarfod | Gwanwyn 2020. | | 8 sefydliad sy'n hyrwyddo'n frwd o fewn eu rhwydweithiau. |
| | Sefydliadau sy'n Aelodau o'r Bartneriaeth Fwyd | • Beth yw Gwobr Efydd SFP a sut i weithredu. | • Digwyddiadau – Lansiad Mynd am yr Efydd<br>• Postio Uniongyrchol – Pecyn Cyfathrebu i Randdeiliaid | Medi 2020.<br><br>Tach 2020 | Cydlynydd y Bartneriaeth | 70 yn mynychu lansiad<br>40 o aelodau yn cofrestru i weithredu |
| | Mudiadau Trydydd Sector/ Cymunedol | • Beth yw Gwobr Efydd SFP a rôl mudiadau cymunedol. | • Cyflwyniadau mewn digwyddiadau trydydd sector.<br>• Digwyddiad – Lansiad | Gwanwyn 2020 | | 4 cyflwyniad<br>20 sefydliad yn gweithredu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mynd am yr Efydd | | | |
| | Y<br>Cyhoedd | • Beth yw Gwobr Efydd SFP a pham ei bod yn werthfawr.<br>• Camau clir y gall unigolion eu cymryd ar bob mater allweddol. | • Gwefan – postio ar flog<br>• Twitter<br>• Facebook<br>• Instagram<br>• Datganiadau i'r wasg ar themâu allweddol | Blog misol<br>Negeseuon trydar rheolaidd<br><br>4 datganiad i'r wasg | | Cynnydd o 50% o ran dilynwyr<br><br>100 o unigolion yn cofrestru i weithredu |